GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD SIR GAERFYRDDIN

"Cefnogi darparu swyddogaethau democrataidd a galluogi ein cwsmeriaid i gyflawni eu rôl"

CANLLAWIAU AR BRESENOLDEB O BELL AR GYFER CADEIRYDDION PWYLLGORAU

Cynhyrchwyd gan Wasanaethau Democrataidd Sir Gaerfyrddin.

01267 224028

Democraticservices@sirgar.gov.uk

Cyflwyniad

Lluniwyd y canllawiau hyn i gynorthwyo Cadeiryddion Pwyllgorau i reoli cyfarfodydd o bell y Cyngor, a'i bwyllgorau amrywiol yn ystod pandemig Covid19.

Bydd y Gwasanaethau Democrataidd yn hwyluso pob cyfarfod o bell ac yn rheoli'r dechnoleg a ddefnyddir ar gyfer mynediad a phresenoldeb o bell. Bydd y Gwasanaethau Democrataidd yn rheoli'r rhyngweithio, yr ymgysylltu a'r cysylltiadau rhwng y cyhoedd ac Aelodau a hynny o dan gyfarwyddyd y Cadeirydd.

Cyn y cyfarfod

- Sicrhewch eich bod wedi darllen y canllawiau ar bresenoldeb o bell sydd ar gael i Gynghorwyr a Swyddogion.
- Sicrhewch eich bod chi'n barod a threfnwch unrhyw gyfarfodydd ymlaen llaw gyda'r Swyddogion Gwasanaethau Democrataidd ac Aelodau os oes angen.
- Ymunwch â'r cyfarfod yn gynnar i sicrhau bod pawb yn bresennol gan gyfarch pob un yn bersonol wrth iddynt ymuno. Cliciwch ar y botwm 'show participants' i weld pwy sy'n bresennol.
- Gwiriwch ar y dechrau fod pawb yn gallu cymryd rhan ac nad oes unrhyw un yn cael problem i gyrchu'r papurau.
- Dylech alw cofrestr cyn i'r cyfarfod ddechrau er budd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd ac unrhyw swyddogion adrannol sy'n mynychu'r cyfarfod.
- Atgoffwch y cyfranogwyr mai dim ond yn dilyn gwahoddiad gennych chi y dylent siarad a bydd angen iddynt ddiffodd y meicroffon pan nad ydynt yn siarad.
- Atgoffwch y rhai sydd am siarad i ddefnyddio'r cyfleuster 'codi llaw' (*raise your hand*) ac i gadarnhau eu henwau ar ôl iddynt gael eu galw.



- Atgoffwch yr aelodau bod rhif ffôn ar gyfer trosglwyddo ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg wedi'i gylchredeg gyda'r cyswllt ymuno yn cyfarfod
- Sicrhewch fod eich ffôn symudol wedi'i ddiffodd neu ar y gosodiad distaw.

Yn ystod y cyfarfod

- Gwnewch yn siŵr eich bod wedi clicio ar y sgrin 'Show Participants' ac yn gallu gweld pwy sydd wedi codi eu dwylo i siarad.
- Dylech nodi'n glir sut y bydd pobl yn cymryd rhan a sut y byddwch yn gwahodd pobl i gyfrannu.
- Dylech atgoffa pawb am ddiben pob eitem ar yr agenda, cofiwch ailadrodd yr argymhelliad cyn gofyn am y bleidlais.
- Dylech atgoffa'r Aelodau y dylent ganolbwyntio ar y mater dan sylw a pheidio â gwneud cyfraniadau amherthnasol neu ailadrodd sylwadau blaenorol.
- Sicrhewch fod Aelodau'n defnyddio unrhyw gyfleusterau sgwrsio ('chat') ar gyfer materion busnes y cyfarfod yn unig.
- Dylech wirio yn achlysurol yn ystod y cyfarfod nad oes unrhyw un yn cael trafferthion technegol.
- Gwiriwch ar ddiwedd bob eitem ar yr agenda fod yr holl Aelodau'n fodlon eu bod wedi gallu cyfrannu.
- Pan fyddwch yn fodlon fod trafodaeth ddigonol wedi cael ei chynnal, galwch am gynigydd ac eilydd ar gyfer yr eitem sy'n cael ei thrafod a yn symud ymlaen i wneud penderfyniad.
- Bydd y dull pleidleisio yn ôl disgresiwn y Cadeirydd a chytunir arno ymlaen llaw fel naill ai: -
    - Codi llaw (yn defnyddio cyfleuster 'raise your hand')
    - Drwy alw enwau pob aelod i ofyn a yw o blaid, yn erbyn, neu'n ymatal rhag pleidleisio